# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn




## Crynodeb (Ionawr 2022)

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect ‘Ardal Ni 2035’ ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy’n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy’n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i’r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy’n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi’r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a’r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **17** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau, Aelodau lleol ac unigolion ardal Llŷn.

**1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy’r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o’r ymatebion i’r cwestiynau yn **atodiad 3.**

## 2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r pethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 16 |
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 16 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 11 |
| Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir | 8 |
| Ardal ddiogel a saff | 6 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 3 |
| Cynnyrch a busnesau lleol | 3 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau | 3 |
| Aer glan / dim llygredd | 3 |
| Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai | 4 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 1 |
| Tir da sy'n rhoi posibiliadau economaidd | 1 |
| Potensial ynni adnewyddadwy | 1 |
| Cyfleusterau cymunedol e.e. Neuaddau, Canolfan | 1 |
| Gallu denu twristiaeth er budd economaidd | 1 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a byses cymunedol | 1 |
| Cyfleoedd swyddi a gwneud elw yn yr ardal | 1 |
| Ysgol dda | 2 |
| Gwasanaeth a darpariaeth iechyd da | 1 |
| Ardal glan a thaclus | 1 |
| Teulu | 1 |
| Cysylltiad wifi da yn rhan fwyaf o lefydd | 1 |
| Tywydd | 1 |

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 15 |
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 12 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd a lles e.e. gwasanaeth brys, meddygfa | 12 |
| Nifer o ail dai a tai haf yn yr ardal | 10 |
| Problemau ac effaith gor-dwristiaeth | 10 |
| Diffyg darpariaeth gofal a gweithgareddau i bobl hŷn | 9 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 8 |
| Yr iaith / diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr | 8 |
| Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel | 5 |
| Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid | 5 |
| Dim digwyddiadau / gweithgareddau cymunedol | 5 |
| Unigedd | 4 |
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 4 |
| Pryderon am ffyrdd a parcio | 4 |
| Band eang / cysylltiad we gwael | 3 |
| Tlodi a chostau byw uchel | 3 |
| Cau ysgolion cynradd yn fygythiad | 3 |
| Pryder ynghylch darpariaeth iechyd meddwl | 3 |
| Problemau Alcohol a Cyffuriau | 3 |
| Adeiladau cymunedol mewn cyflwr gwael e.e. Neuadd Bentref | 2 |
| Mae angen gwneud mwy o gynnyrch lleol a treftadaeth yr ardal | 2 |
| Newidiadau gwleidyddol wrth i nifer o Gynghorwyr Sir yn lleihau | 2 |
| Diffyg presenoldeb yr heddlu | 2 |
| Problemau tirlithriad a llifogydd | 2 |
| Angen ymestyn y tymor gwyliau i wneud y mwyaf o dwristiaeth | 1 |
| Dim digon o bwyntiau gwefru | 1 |
| Siopau a busnesau yn cau | 1 |
| Dim llawer o gaffis / bwytai safonol | 1 |
| Dim gwariant yn ardal Dwyfor – arian yn cael ei defnyddio ar Caernarfon a Bangor | 1 |
| Dim llawer o fentrau 'gwyrdd' | 1 |
| Polisïau Cynllunio anaddas i anghenion lleol | 1 |

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 14 |
| Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | 10 |
| Mwy anogaeth a gweithgareddau fel bod yr iaith / diwylliant yn ffynnu | 8 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | 8 |
| Rhagor o adnoddau iechyd a gofal | 8 |
| Twristiaeth gynaliadwy er mwyn uchafu budd i'r economi leol | 8 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 7 |
| Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol | 6 |
| Gweithgareddau cymunedol i gefnogi llesiant | 5 |
| Hyrwyddo mwy ar gynnyrch lleol | 5 |
| Cynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau / cefnogi pobl ifanc | 4 |
| Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi | 4 |
| Adolygu'r Polisi Cynllunio | 4 |
| Gwneud y mwy o'r cefn gwlad a gwella'r llwybrau beicio a cherdded | 3 |
| Cynlluniau i annog ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth leol | 3 |
| Creu is-adeiladaeth band eang | 2 |
| Taclo tirlithriadau | 2 |
| Digwyddiadau creadigol a diwylliannol rheolaidd | 2 |
| Mwy o gaffis a bwytai safonol | 2 |
| Rhagor o bresenoldeb yr heddlu | 1 |
| Datrysiad i broblemau parcio | 1 |
| Cyngor Gwynedd i wrando ar lais cymunedau lleol | 1 |
| Llŷn fwy hunangynhaliol | 1 |
| Gwell cynrychiolaeth wleidyddol | 1 |
| Cymunedau i gynnal ymgyrchoedd e.e. atal sbwriel, plannu coed ac ati. | 1 |
| Taclo materion sbwriel a chynnal a chadw | 1 |
| Taclo tlodi | 1 |
| Cefnogaeth y Cyngor wrth adfer o Covid | 1 |

## 5. Cwestiynau ychwanegol

### 5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal Llŷn:

- Cyngor Gwynedd
- AHNE Llŷn
- Cydweithio Lles Llŷn
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Gwasanaeth Tân
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ysgolion Meithrin
- Be Nesaf Llŷn?
- Clybiau Chwaraeon
- Merched y Wawr
- Y Fic
- Tafarn yr Heliwr
- O Ddrws i Ddrws
- Ynni Llŷn
- Gyrfaoedd Cymru
- Canolfan Waith
- Arloesi Gwynedd Wledig
- Menter Môn
- Pwyllgorau'r Neuaddau
- Grŵp Twristiaeth Aberdaron
- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Canolfan Cydweithredol
- Sustainable Abersoch Cynaliadwy.
- Arbenigwyr creu Ynni di garbon
- Grwpiau o ieuenctid lleol
- Clwb Pel-droed Nefyn
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Senedd Cymru
- Partneriaeth Llŷn
- Heddlu
- Adra
- Grŵp Cynefin
- Undeb Amaethyddol
- Yr Urdd
- Ffermwyr Ifanc
- Capeli
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Partneriaeth Eco Amgueddfa
- Hunaniaith
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Cwmni Deg
- Busnesau lleol e.e. Cwrw Llŷn, Nanhoron
- Coleg Llandrillo Menai
- Sefydliad y Merched
- Grŵp Twristiaeth
- Pwyllgorau Canolfannau Cymunedol
- Plas Carmel
- Fforymau Mynediad Lleol
- CPRW Lleol
- Diwydiannau Lleol
- BT

### 5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Ardal Llŷn:

- Arolwg o fwriadau a dealltwriaeth trigolion Llŷn am gerbydau trydan a gwefru gan Ynni Llŷn, Canolfan Fenter Congl Meinciau a SPEN [Scottish Power Energy Network].

- Eco Amgueddfa [Swyddog Prosiect Tirlun Llŷn]
- Gwaith gwerthusiad cyfranogol Cymunedau Gyntaf Pen Llŷn
- Ymgynghoriad ar gyfer datblygiad cartrefi Penrhos ar gyfer pobl hŷn
- Ymgynghoriad Ysgol Abersoch
- Ymgynghoriad tai gwyliau / premiwm treth Cyngor
- Mae Hwylusydd Tai Gwledig yn cynnal arolwg ar hyn o bryd ar ran Cymdeithas Dai Grŵp Cynefin i ddarganfod beth yw'r angen am dai yn yr ardal.
- Gweithgareddau ymgysylltu Prosiect Plas Carmel yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf.
- Llawer o bobl wedi troi i fyny i brotestiadau Hawl i Fyw Adra yn dangos cefnogaeth a bod dipyn o alw ar y Cyngor i wneud rhywbeth hefo'r argyfwng tai
- Yr Heliwr wedi holi barn pobl leol am wasanaethau yn y dafarn. Yr Heliwr yn y broses o sefydlu gardd gymunedol yng Nghae Iorwerth, Nefyn; 'hwb i'r hinsawdd' ydi enw'r cynllun
- Adroddiad Ail gartrefi Simon Brooks.
- Cwmni Fran Wen wedi gweithio efo pobl ifanc Nefyn yn ddiweddar.
- Cyngor Tref Nefyn wedi bod mewn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru.
- Prosiect cynnyrch fferm gyda'r Hen felin yn Aberdaron e.e. ffermwyr yn cynhyrchu ŷd a'i falu yn lleol i gynhyrchu blawd.

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Llŷn;**

- Pryder am gywirdeb yr ystadegau a gyflwynwyd, mae un yn creu pryder mawr ac yn rhoi camargraff llwyr o'r ardal sef yr ystadegau yma am yr Amgylchedd - Pen Llŷn 55.1%., Gwynedd 76.6%, Cymru 77%. *sef yr isaf yng Ngwynedd
- Ystadegau yn gam-arweiniol ac mae pobl sydd wedi symud i'r ardal hefyd yn rhan o'r ystadegau. Adroddiad wedi'i chyhoeddi gan Arsyllfa Wledig Cymru ar Ardaloedd Gwledig Dwfn yn dangos bod cyflogau yn gallu bod mor isel a £5,000.